Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Talysarn
# Y Ganolfan
# Ffordd yr Orsaf
# Talysarn
# Gwynedd
# LL54 6HL

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Talysarn yn 2007 ac fe'i lleolir yn y Ganolfan Gymunedol yng nghanol pentref Talysarn yng Ngwynedd. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel aelod o 'Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Gwynedd'. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r 'Mudiad Meithrin'. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae ar agor rhwng chwarter i naw a deng munud i un ar ddeg y bore am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn dwy a hanner mlwydd oed ar y gofrestr.

Cymraeg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Mae un plentyn o gefndir Saesneg ac un plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd.

Mae'r ddau ymarferydd llawn amser yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae un ymarferydd ychwanegol newydd gychwyn yn ei swydd ym Medi 2011. Mae'r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd. Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2011. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad y cylch yn dda oherwydd:**

- mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant;
- mae'r holl blant yn cael gofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chroesawus;
- mae gan yr holl blant agweddau positif at ddysgu ac maent yn ymateb yn dda i ddisgwyliad y staff i ymddwyn yn gyfrifol;
- gwneir defnydd effeithiol iawn o amser i gadw diddordeb plant ac i hybu eu datblygiad yn effeithiol er bod ymarferwyr yn colli llawer o gyfleoedd i fwydo iaith y plant ar draws rhai o'r meysydd dysgu;
- mae'r cylch yn cael ei arwain a'i reoli'n effeithiol;
- mae'r plant yn elwa o bartneriaethau da'r lleoliad gyda'r rhieni, yr awdurdod addysg lleol a'r gymuned.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:**

- mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar y plant a'u hanghenion unigol;
- mae'r lleoliad wedi asesu ei chryfderau a meysydd gwella yn gywir;
- mae'r ymarferwyr yn ymroddedig ac yn mynychu hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd;
- mae'r pwyllgor rheoli a'r rhieni yn cynnig cefnogaeth gadarn ac mae gweithio agos y lleoliad â'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin oll yn fuddiol i'w datblygiad.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella mae angen i'r cylch:**

A1 sicrhau cysondeb wrth weithredu'r cynlluniau i fwydo iaith ar draws y meysydd dysgu;
A2 ddarparu cyfarpar a mwy o gyfleoedd i'r plant ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) ar draws y meysydd dysgu;
A3 ddatblygu'r ardal tu allan ymhellach i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas;
A4 rhoi mwy o bwyslais ar reoli perfformiad ymarferwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | N/A |
|---|---|

**Safonau: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, y safonau yn natblygiad eu medrau a'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

**Lles: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gyfer lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Darpara'r ymarferwyr brofiadau rheolaidd i'r plant arbrofi, sy'n gymorth iddynt ddod yn ddysgwyr annibynnol. Darperir gweithgareddau da iddynt ddatblygu eu medrau sylfaenol a hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd. Defnyddia'r ymarferwyr fframweithiau cwricwlaidd effeithiol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r cynllunio hir dymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a diddordeb y plant. Mae'r cynllunio tymor byr yn rhoi sylw da i'r medrau penodol i'w datblygu yn yr ardaloedd dysgu yn yr ystafell, yn y neuadd ac yn yr ardal tu allan.

Mae'r cynllunio ar gyfer tasgau ffocws yn fanwl ac yn cynnwys datblygu medrau dysgu'r plant. Nid yw'r dulliau dysgu iaith yn gyson ac ni roddir sylw digonol i fedrau technoleg gwybodaeth.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac awyr agored yn dda ac yn hybu plant i fentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd. Mae ymwelwyr i'r lleoliad a'r ymweliadau allan i'r gymuned yn galluogi'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd o'u cwmpas.

Rhoddir sylw da i ddatblygu'r Gymraeg ac mae anogaeth gyson i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'u chwarae drwy gyfrwng gweithgareddau amrywiol. Mae pwyslais da ar hybu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n dda ar y cyfan. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad a diddordebau plant ac o anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent

yn darparu profiadau dysgu da, sy'n ennyn diddordeb y plant.

Defnyddia'r ymarferwyr ystod dda iawn o ddulliau dysgu ac adnoddau i gynorthwyo'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm i gynnig cefnogaeth i'r plant. Maent yn cyfathrebu'n dda iawn gyda'r plant yn ystod sesiynau stori a gwaith grŵp ond maent yn colli cyfleoedd i gwestiynu'n dreiddgar a datblygu geirfa'r plant. Mae'r sesiynau canu yn sicrhau bod plant yn ymuno'n egnïol yn ystod y gweithgareddau. Rheolir ymddygiad yn dda iawn.

Mae gweithdrefnau da yn bodoli i adrodd ar gynnydd a datblygiad y plant.
Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Maent yn arsylwi arnynt yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol mewn ffeil nodiadau. Gwna'r cylch ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth a gesglir i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ac i ymestyn medrau'r plant ymhellach. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n gyson, yn ffurfiol ac anffurfiol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn cael eu gweithredu'n dda iawn. Mae'r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda iawn.

Mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion. Mae'r oedolion a phlant yn arddangos parch tuag at ei gilydd. Darperir byrbrydau iach i bob plenty. Mae ymarferwyr yn cymell y plant i fentro a helpu ei gilydd. Mae gweithredu fel "Helpwr y Dydd" yn rhoi cyfle da i'r plant gymryd cyfrifoldeb yn eu tro. Mae'r ymarferwyr yn gosod disgwyliadau uchel i hyrwyddo ymddygiad da.

Maent yn canfod anghenion y plant yn gynnar ac yn trefnu darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Maent yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion penodol. Mae gan y lleoliad bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Maent yn annog y plant i ddatblygu annibyniaeth ac i fanteisio'n llawn o'r profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl cyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar. Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad da i gyflwyno'r cwricwlwm. Ar y cyfan, ceir cyflenwad da o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r

dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd da o ymweliadau ac o ymwelwyr o'r gymuned i ymestyn profiadau'r plant.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd da ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn ohonynt.

Defnyddir ardal y tu allan i'r ystafell ar gyfer gweithgareddau. Nid yw'r ardal hon, wedi ei ddatblygu'n ddigonol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd yn llawn.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir a dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae strwythur clir i'r sesiynau ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn fel tîm er budd y plant. Mae polisïau addas yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae rhieni/gofalwyr yn gwbl ymwybodol o fodolaeth y drefn gwyno.

Mae'r ddwy brif ymarferydd yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm er budd datblygiad y plant. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Gwnânt ddefnydd priodol o'r cyfleoedd a ddarperir i gyd weithio a rhannu profiadau gyda lleoliadau eraill yn yr ardal.

Mae'r pwyllgor rheoli yn drefnus a chefnogol i'r lleoliad. Maent yn ymroddgar ac effeithiol wrth weithredu eu cyfrifoldebau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu argymhellion adroddiadau ac arfarniadau yn chwim ac effeithiol.

Mae'r arweinydd, y rheolwyr a rhieni/gofalwyr yn bwydo'r broses o hunan arfarnu. Mae'r arweinydd - gyda chefnogaeth Athrawes Gysylltiol Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol - yn defnyddio'r wybodaeth i grynhoi barnau a chanfod meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gryno, yn benodol ac arfarnol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir.

Mae'r broses yn effeithiol at ganfod agweddau i'w gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i'r holl blant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae’r arweinydd yn cydweithio’n effeithiol iawn gyda’r Athrawes Gysylltiol Sirol a swyddog y Mudiad Meithrin i fonitro darpariaeth y cylch. Mae’r partneriaethau yma yn rhagorol ac yn fuddiol i addysg y plant sy’n mynychu’r lleoliad.

Mae’r rhieni yn derbyn amrediad da o wybodaeth a maent yn rhan annatod o’r holl brosesau ymgynghori.

Mae’r plant yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r bartneriaeth rhwng y cylch a’r ysgol leol yn hwyluso’r broses o drosglwyddo o’r lleoliad i’r ysgol.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol iawn i gefnogi dysgu’r plant. Mae’r cylch yn croesawu amrediad da o ymwelwyr gan gynnwys aelodau o’r heddlu lleol a’r gwasanaeth tân. Trefnir rhaglen eang o ymweliadau i leoliadau diddorol yn y fro i gyfoethogi gwybodaeth y plant o’r byd o’u cwmpas.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd a diddordeb yr ymarferwyr. Nid yw’r broses o reoli perfformiad ac adnabod anghenion hyfforddiant ymarferwyr yn ddigon ffurfiol.

Gwneir defnydd da o’r neuadd ac o’r ardal tu allan i ddatblygu rhai meysydd dysgu. Mae’r ymarferwyr yn rheoli’r adnoddau yn dda ac yn eu hadnewyddu fel bo’r angen. Maent yn deall faint o gyllid sydd ar gael i’w wario. Maent yn cydweithio’n agos a’r rheolwyr i bennu blaenoriaethau realistig i ddatblygu adnoddau ac agweddau o’r ardaloedd dysgu. Mae’r pwyllgor rheoli yn trefnu gweithgareddau niferus i gasglu arian i gefnogi’r blaenoriaethau hyn. Mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd dau o holiaduron rhieni ac ynddynt mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am y ddarpariaeth. Teimla'r rheini fod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn mwynhau mynychu' r lleoliad. Credant fod eu plant yn ddiogel iawn ac yn ymddwyn yn dda yno. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n ddiymdroi yn eu cwmni. Maent o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda'r plant**

Roedd bob plentyn yn gyfforddus wrth siarad ag ymwelwyr a dywedant eu bod yn hapus iawn yn y cylch. Ymunant yn frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod iawn i sgwrsio am eu hoff weithgareddau ac am eu ffrindiau.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo'n briodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)